# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Hybrid (Ystafell Pwyllgor 5)**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Mehefin 2023

Amser: 13.00 - 16.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13363

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jenny Rathbone AS (Cadeirydd)<br>Jane Dodds AS<br>Altaf Hussain AS<br>Sarah Murphy AS<br>Sioned Williams AS |
| Tystion: | Dr Stephen Burrell, Durham University<br>Dr Nathan Eisenstadt<br>Dr Rachel Fenton<br>Anne-Marie Lawrence, Plan International UK |
| Staff y Pwyllgor: | Rhys Morgan (Clerc)<br>Rachael Davies (Ail Glerc)<br>Angharad Roche (Dirprwy Glerc)<br>Sarah Hatherley (Ymchwilydd)<br>Claire Thomas (Ymchwilydd)<br>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Ken Skates a’r Athro Zara Quigg.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

## 2 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: sesiwn dystiolaeth 4

Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan:

Anne-Marie Lawrence, Rheolwr Datblygu Cymru, Plan UK

Dr Stephen Burrell, Athro Cynorthwyol (Ymchwil), Prifysgol Durham

## 3 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: sesiwn dystiolaeth 5

Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan:

Dr Rachel Fenton, Athro Cyswllt yn Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Caerwysg, a Chyfarwyddwr Kindling Transformative Interventions

Dr Nathan Eisenstadt, Uwch Gydymaith Ymchwil Anrhydeddus, Prifysgol Caerwysg; Uwch Gydymaith Ymchwil, Prifysgol Bryste; a Chyfarwyddwr Kindling Transformative Interventions

## 4 Papurau i'w nodi

Nododd yr Aelodau y papurau ac, mewn sesiwn breifat, mewn perthynas ag Eitem 4.4, cytunwyd y dylid ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip i ofyn am eglurhad pellach ynghylch nifer o bwyntiau a godwyd yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor.

**4.1 Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref: Y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar Sail Rhyw yn Gyhoeddus**

**4.2 Gohebiaeth rhwng y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ynghylch hygyrchedd gwybodaeth**

**4.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch gweithredu Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol**

**4.4 Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: "60% - Rhoi llais iddyn nhw: Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid"**

**4.5 Gohebiaeth rhwng y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Bil Mudo Anghyfreithlon Llywodraeth y DU**

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd yr Aelodau'r cynnig.

## 6 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: trafod y dystiolaeth

Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon: trafod yr ymatebion

Trafododd y Pwyllgor yr ymatebion a chytunodd i drafod adroddiad drafft yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.